# Sut i baratoi ar gyfer llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ymarferol ar gamau i'w cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Gall y camau hyn helpu i leihau effaith llifogydd arnoch chi, eich teulu, a'ch eiddo.

## Cyn llifogydd

### Darganfyddwch a ydych mewn perygl o lifogydd

Gallwch wirio eich perygl llifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach, a chronfeydd dŵr ar ein map perygl llifogydd.
Gallwch ddarganfod a yw eich eiddo mewn perygl drwy:

- Ymweld â'n gwefan **cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/llifogydd**
- Ffonio Floodline ar **0345 988 1188**
  Typetalk: **0345 602 6340**
  (ar gyfer unigolion trwm eu clyw)

### Darganfyddwch a allwch chi dderbyn rhybudd

Os ydych yn byw neu'n gweithio mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd o brif afonydd neu'r môr, efallai y gallwch gofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd am ddim dros y ffôn, e-bost neu neges destun gan ein Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd.

**Ffoniwch Floodline heddiw i ddarganfod a oes rhybuddion ar gael yn eich ardal chi, neu cofrestrwch ar ein gwefan.**

### Cymerwch gamau ymarferol i baratoi

Dyma rai camau i'ch helpu i baratoi eich eiddo ar gyfer llifogydd. Bydd y rhain yn arbed amser ac arian i chi yn ystod llifogydd a gallant hefyd leihau effaith llifogydd ar eich eiddo.

### Cam un

Lluniwch gynllun llifogydd personol sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol y bydd ei hangen arnoch yn ystod llifogydd - megis rhifau polisi yswiriant a lleoliadau'r prif gyflenwadau nwy, trydan a dŵr, yn ogystal â manylion cyswllt y bobl y gallai fod angen i chi gysylltu â nhw mewn argyfwng. Pan fyddwch wedi rhoi popeth at ei gilydd, cadwch eich cynllun llifogydd yn ddiogel mewn ffolder diddos sy'n hawdd mynd ato pan fo'i angen!

### Cam dau

Paratowch becyn llifogydd gydag eitemau hanfodol y byddai eu hangen arnoch yn ystod llifogydd neu os bydd angen i chi adael eich cartref. Gwnewch yn siŵr bod eich pecyn yn cynnwys copïau o'ch dogfennau yswiriant, tortsh a radio weindio hwylus, dillad cynnes diddos, ac unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol. Mae cadw eich pecyn llifogydd mewn man sy'n hawdd ei gyrraedd yn sicrhau eich bod yn barod pan fydd arnoch ei angen fwyaf!

**Sganiwch ein cod QR i greu eich cynllun llifogydd personol**

### Cam tri

Ystyriwch gael syrfëwr siartredig i gynnal arolwg llifogydd. Bydd hwn yn dweud wrthych ble gallai dŵr llifogydd fynd i mewn i'ch eiddo, pa mor gyflym y bydd yn llifo, a ble y gallai achosi'r difrod gwaethaf.

Yna gall y syrfëwr ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddewis yr amddiffyniad gorau rhag llifogydd ar gyfer eich eiddo. Gallai gosod y cynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd anghywir olygu eu bod yn aneffeithiol, neu hyd yn oed achosi mwy o ddifrod.



## Yn ystod llifogydd

### Camau ymarferol i'w cymryd:

- Defnyddiwch eich cynllun llifogydd personol
- Diffoddwch gyflenwadau nwy, trydan a dŵr
- Edrychwch ar ein tudalen rhybuddion llifogydd ar ein gwefan neu ffoniwch Floodline ar 0345 988 1188 i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd
- Gwrandewch ar orsafoedd radio neu deledu lleol i gael diweddariadau llifogydd
- Symudwch bethau gwerthfawr, ffotograffau ac eitemau o werth personol i fyny'r grisiau
- Symudwch rygiau a dodrefn ysgafn i fyny'r grisiau
- Rhowch eich llenni dros y rheilen llenni fel eu bod nhw allan o gyrraedd llifddwr
- I atal dŵr llifogydd rhag dod i mewn i'ch cartref, rhowch blygiau yn y sinciau a rhowch bwysau arnynt gyda gwrthrychau trwm, plygiwch bibellau mewnfa dŵr â thywelion neu gadachau, a datgysylltwch unrhyw offer sy'n defnyddio dŵr, h.y. y peiriant golchi
- Dewch o hyd i'ch pecyn llifogydd a pharatowch i symud eich teulu ac anifeiliaid anwes i fyny'r grisiau i le diogel gyda ffordd o ddianc
- Ceisiwch osgoi dod i gysylltiad â dŵr llifogydd lle bo modd gan y gallai fod wedi'i halogi
- Peidiwch â gadael eich cartref na mynd i mewn i ddŵr llifogydd oni bai fod y gwasanaethau brys yn rhoi cyfarwyddyd uniongyrchol i chi wneud hynny. Gall llifddwr fod yn hynod beryglus a gall peryglon fod yn gudd ynddo



## Yn dilyn llifogydd

### I'w wneud:

- Darganfyddwch gan y gwasanaethau brys a yw'n ddiogel i chi fynd yn ôl i mewn i'ch eiddo
- Byddwch yn ofalus wrth fynd yn ôl i mewn i'ch eiddo, oherwydd gall peryglon a achosir gan lifogydd fod yn gudd, megis difrod adeileddol a halogiad
- Tynnwch luniau o'r difrod i'ch eiddo
- Cysylltwch â'ch cwmnïau yswiriant adeiladau a chynnwys cyn gynted â phosibl a chanfod faint o amser y bydd yn ei gymryd iddynt eich gweld
- Gwiriwch a oes ganddynt gwmni a fydd yn glanhau eich tŷ neu a fydd yn rhaid i chi wneud hyn eich hun
- Gwiriwch gyda nhw cyn taflu unrhyw eitemau sydd wedi'u difrodi

### Clirio ar ôl llifogydd

- Gall dŵr llifogydd gynnwys carthion a chemegau ac, er ei fod wedi'i wanhau, dylech bob amser wisgo menig a dillad diddos, esgidiau glaw a masg wyneb
- Ewch ati i lanhau a diheintio eich eiddo gan ddefnyddio'r cynhyrchion glanhau cartref arferol
- Defnyddiwch bibell ardd arferol i olchi arwynebau
- Os ydych yn sychu eich eiddo yn naturiol, cadwch ffenestri a drysau ar agor cymaint â phosibl
- Os ydych yn defnyddio peiriannau dadleithio, caewch y ffenestri a'r drysau
- Gwnewch yn siŵr bod trydanwyr a pheirianwyr cymwys yn gwirio'r holl drydan a'ch gwres canolog cyn eu cynnau

### Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am amddiffyn eich cartref rhag llifogydd, yn ogystal â chanllawiau ar beth i'w wneud yn ystod ac ar ôl llifogydd, ewch i'n gwefan **cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/llifogydd** neu ffoniwch: **0300 065 3000**